# Vale School Governors' Association
# Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro
### and Governor Support Unit

# Cylchlythyr

## Gair gan y Cadeirydd

Mae hwn yn gyfnod pryderus i ysgolion yng Nghymru. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi dyrannu digon o arian i ariannu effeithiau'r cynnydd mewn costau byw a'r cynnydd mewn cyflogau staff.

Mae llawer o ysgolion wedi gosod cyllidebau diffyg ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Yn y Fro, rydym yn amcangyfrif y bydd bron i hanner yr ysgolion yn y sefyllfa honno. Yn fwy na hynny, efallai y bydd y rhan fwyaf o ysgolion yng Nghymru yn cyhoeddi cyllidebau diffyg ar gyfer 2024-25. Mae'r effeithiau ar blant yn Ysgolion Cymru yn ddifrifol:

- Gostyngiad o ran ansawdd y dysgu a'r addysgu
- Llai o athrawon – naill ai drwy ddiffyg disodli neu ddiswyddiadau. Dim digon o staff cymorth, sy'n golygu bod plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn perygl o beidio â chael yr help sydd ei angen arnynt.
- Llai o oedolion mewn ystafelloedd dosbarth ac ar gyfer amser cinio a seibiannau, gan roi pawb mewn perygl.
- Llai o waith cynnal a chadw ar adeiladau sy'n arwain at bryderon diogelwch
- Mwy o straen ar benaethiaid ac uwch staff, gan arwain at fwy o absenoldeb salwch a gorlethu.

Ac ar yr un pryd mae ysgolion yn cael trafferth gweithredu diwygiadau addysgol.

Mae Cymdeithas Llywodraethwyr y Fro yn gweithio ar ddau faes:

1. Ar y cyd â Chymdeithasau Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol eraill ledled Cymru, rydym wedi lansio deiseb Senedd gyda'r nod o sbarduno dadl yn y Senedd ar gyllid ysgolion. A wnewch chi plîs gofrestrwch ac annog y rhieni/ gwarcheidwaid yn eich ysgol i wneud yr un peth. Mae angen 10,000 o lofnodion yn <https://deisebau.senedd.cymru/deisebau/245492>
2. Mae Bro Morgannwg wedi cael ei gosbi gan fformiwla ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg ers dros ugain mlynedd. Ar hyn o bryd mae pob disgybl yn y Fro werth £728 y flwyddyn yn llai na chyfartaledd Cymru - mwy na 10%. Mae hyn er i Gyngor y Fro ddyrannu mwy i Addysg nag y mae'r fformiwla yn awgrymu. Mae Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro yn cymryd cyngor cyfreithiol ynghylch a yw adolygiad barnwrol yn bosibl. Diolch i'r holl Gyrff Llywodraethu a gyfrannodd yn ariannol tuag at yr ymgyrch hon.

Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r llywodraethwyr am sut mae pethau'n datblygu.

**Dr Martin Price**
**Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro ac Is-gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn**

## Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

**Manylion cyswllt:**
**John Sparks**
Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

**Janine Hoare**
Cynorthwyydd Clerigol
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820
E-bost : JHoare@valeofglamorgan.gov.uk

Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:
**VSGA**
**a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr**
**Dysgu a Sgiliau**
**Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton,**
**Y Barri CF63 4RU**

**Rhifyn 55**
**Tymor Gwanwyn 2023**

**Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:**

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lansiwyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

**Sefydlwyd VSGA i:**

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALl Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALl
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALl
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

# Gwybodaeth i Ysgolion y Fro

Cyrsiau Cymraeg am ddim

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Y Fro / The Vale

Mae'r holl weithlu addysg – staff dysgu a staff sydd dim yn dysgu - yn gallu dilyn cyrsiau Cymraeg **yn rhad ac am ddim** a 'dyn ni yn cynnig cyrsiau ar bob lefel o ddysgu neu wella Cymraeg. Mae dewis eang o ddulliau dysgu ar gael i chi ddysgu Cymraeg mewn ffordd sy'n addas i chi.

Oes staff gyda chi y fyddai'n elwa o hyn gan fagu hyder yn eu Cymraeg o flaen dosbarth?

## Pwy sy'n gallu dilyn y cyrsiau rhad ac am ddim?

- Athrawon cymwysedig sydd mewn swydd, neu sy'n chwilio am swydd
- Athrawon sydd newydd gymhwyso ac sy'n chwilio am swydd
- Athrawon/cynorthwywyr cyflenwi
- Unigolion sy'n hyfforddi ar hyn o bryd i fod yn athro cymwysedig
- Cynorthwywyr Dysgu sydd mewn gwaith
- Arweinyddion
- Athrawon ymgynghorol
- Staff nad ydynt yn dysgu e.e. Staff gofal maes chwarae a chinio

## Lefelau Dysgu Cymraeg

Mae cyrsiau ar gael ar wahanol lefelau o ddechreuwyr i ddysgwyr profiadol:

**Mynediad:** Lefel dechreuwyr – sy'n cyflwyno patrymau iaith syml, gan gynnwys amserau'r presennol, y gorffennol a'r dyfodol a geiriau ac ymadroddion pob dydd.

**Sylfaen:** Os dych chi'n siarad tipyn o Gymraeg yn barod ac yn hyderus gyda'r amser presennol, gorffennol a dyfodol, dilynwch y lefel yma. Byddwch yn trafod pynciau fel ffrindiau, teulu, gwaith a hobïau.

**Canolradd:** Dyma'r lefel os ydych yn gyfarwydd gyda patrymau iaith sylfaenol y Gymraeg. Byddwch yn mwynhau datblygu eich sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu a byddwch yn dysgu llawer o eirfa newydd.

**Uwch:** Siarad yw'r prif beth ar y lefel yma. Byddwch hefyd yn gwella eich sgiliau darllen, ysgrifennu a gwrando ac yn dysgu mwy am Gymru.

**Gloywi/Gwella:** Mae'r lefel yma ar gyfer dysgwyr profiadol a siaradwyr Cymraeg sy eisiau magu hyder i ddefnyddio a mwynhau eu Cymraeg. Bydd y cwrs yn cael ei deilwra ar gyfer anghenion y dosbarth.

Ewch at ein gwefan i weld y dewis **www.dysgucymraeg.cymru/yfro**
Ymrestrwch a defnyddio ADDYSG23 i gael y cwrs am ddim neu e-bostiwch ni ar **learnwelsh@valeofglamorgan.gov.uk** am ragor o wybodaeth

**Suzanne Condon**
**Business Administrator, Welsh for Adults – Gweinyddwr Busnes Cymraeg i Oedolion**
**Learning and Skills- Sgiliau a Dysgu**

---

# School Uniform Guidance

**Gweler isod gan sy'n ddilyniant i'r canllawiau gwisg ysgol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.**

Ar 2 Mai 2023, cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad ar gyfer cyrff llywodraethu.

Mae'r canllawiau newydd yn nodi y dylai ysgolion sicrhau bod trefniadau ar waith fel bod gwisgoedd ysgol ail-law ar gael i rieni a gofalwyr eu caffael.

Gall cynlluniau ailgylchu a chyfnewid gwisgoedd amrywio. Dyma ddolen i wahanol fathau o gynlluniau y gallai ysgolion ddewis eu gweithredu.

**https://www.llyw.cymru/cynlluniau-cyfnewid-ac-ailgylchu-gwisg-ysgol**

**Claire Horton**
**Head of Legislation & Governance Branch/Pennaeth y Gangen Deddfwriaeth a Llywodraethu**
**claire.horton2@gov.wales/claire.horton2@llyw.cymru**

# Trefniadau Derbyn i Ysgolion Cydlynol 2023

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi gweithredu trefniadau derbyn cydlynol ar gyfer y broses Derbyn i Ysgolion Cynradd ers cynllun peilot dosbarthiadau derbyn 2019-20.

Mae Cyrff Llwyodraethu Ysgolion Cynradd Yr Eglwys Yng Nghymru Llansannor, St Andrew's Major, St Brides Major, Dewi Sant, a Wick & Marcross; Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff; ac ym mhlwyddyn derbyn 2023-24, Ysgol Gatholig All Saints, wedi cytuno i ddod yn rhan o'r trefniadau cydlynol a'r gobaith yw y bydd yr ysgolion hynny nad ydynt eto yn rhan o hyn yn cydnabod y manteision ac yn dymuno ymuno yn y dyfodol er gwell tryloywder i bawb.

Yn ystod proses Derbyn Ysgolion Uwchradd 2021-22, ymunodd corff llywodraethu Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn â'r trefniadau derbyn cydlynol hefyd.

Nid yw'r trefniadau cydlynol yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar geisiadau i ysgolion unigol na pholisïau derbyn y Cyngor. Ymarfer gweinyddol yn unig yw hyn sydd wedi helpu i ddeall manteision Derbyniadau Cydlynol, yn enwedig o ran cynorthwyo teuluoedd i sicrhau eu lle dewis cyntaf mewn ysgol ac osgoi peri gofid ymhlith rhieni o ganlyniad i gynigion hwyr ac apeliadau diangen.

Drwy gydweithio ar y derbyniadau i ysgolion cydlynol, mae wedi arwain at fwy o ddisgyblion yn sicrhau lle yn y rownd dyrannu lleoedd gyntaf ac mae wedi lleihau nifer y teuluoedd a fyddai wedi gorfod aros cryn amser yn flaenorol am gynnig lle neu wrandawiad apêl.

Y gobaith yw y bydd gweddill yr ysgolion ffydd ym Mro Morgannwg yn ymuno â'r trefniadau cydlynol yn y dyfodol er mwyn sicrhau gwell tryloywder i rieni a disgyblion a hefyd mwy o gynllunio a threfn i ysgolion ac i'r awdurdod lleol.

**Sam Mawhinney**
**Logistics & Access Officer/Swyddog Logisteg a Mynediad**
**Strategy, Community Learning Resources/ Strategaeth, Adnoddau Dysgu Cymunedol**

---

# Plant yng Nghymru – Mynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Addysg; Canllaw i Lywodraethwyr

Gwyddom fod 4 o bob 10 o'n plant a'n pobl ifanc yng Nghymru yn byw mewn tlodi, sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd, eu haddysg a'u cyfleoedd bywyd yn y dyfodol. Mae effaith tlodi ar ddysgwyr o deuluoedd incwm is wedi'i gofnodi'n dda ac mae'n effeithio ar les a chyrhaeddiad. Gall costau cysylltiedig y diwrnod ysgol waethygu hyn a gall bywyd ymarferol o ddydd i ddydd ddod yn broblemus.

Mae ein Canllaw Pris Tlodi Disgyblion llwyddiannus wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion ac yn mynd i'r afael â phum maes allweddol **(Deall Tlodi; Gwisg ysgol a dillad; Bwyd a newyn; Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol; Perthynas Cartref-Ysgol)** wedi cael eu datblygu i fod yn Ganllaw i Lywodraethwyr Ysgol newydd.

Wedi'i ysgrifennu'n benodol ar gyfer Llywodraethwyr, mae'r canllaw hwn yn rhoi cipolwg ar bob un o bum maes allweddol y Canllawiau o safbwynt llywodraethwyr a hefyd yn edrych ar bolisïau'r ysgol, cyllid Llywodraeth Cymru a phrosiectau i fynd i'r afael â thlodi mewn ysgolion.

Ymunwch â Plant yng Nghymru i gael **gweminar ymwybyddiaeth a gwybodaeth AM DDIM ar y Canllaw i Lywodraethwyr newydd i Fynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Addysg**, a fydd yn cyflwyno'r canllaw newydd ac yn darparu cymorth a chyngor ymarferol ar gael gwared ar rwystrau ariannol i gyfranogiad disgyblion. Fel llywodraethwr, gallwch gefnogi eich ysgol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar y diwrnod ysgol i bob dysgwr.

Darganfyddwch fwy yma:
**Governors' Guides/Canllaw i Lywodraethwyr | Children in Wales (childreninwalesmembership.org.uk)**

**Michelle Calnan**
**Education, Social Justice and Welsh Language Group/Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg**
**Welsh Government/Llywodraeth Cymru**

# Cefnogi'r Fenter Urddas Mislif!

Mae Bro Morgannwg wedi bod yn chwarae rhan allweddol ym menter Urddas Mislif Llywodraeth Cymru, drwy sicrhau y gall pob dysgwr yn y sir gael cynhyrchion mislif am ddim. Wrth ei gwraidd, nod y fenter yw herio'r stigma a'r tab  o ran y mislif. Drwy annog mwy o sgyrsiau, bydd disgyblion yn deall y mislif yn well, beth sy'n normal, a ble i gael help. Gall disgyblion ofyn am gynhyrchion mislif am ddim, a byddan nhw'n eu cael nhw mewn ffordd ymarferol ac urddasol. Er bod y cynllun yn agored i bawb, canolbwyntiwyd yn benodol ar ei hyrwyddo i aelwydydd incwm is a myfyrwyr sy'n agored i niwed.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn bod o leiaf 80% o'r arian yn cael ei wario ar gynhyrchion ecogyfeillgar, ac felly, bu pwyslais ar hyrwyddo cynhyrchion amldro lle bo hynny'n bosibl. Ar hyn o bryd mae gennym ni:

- Padiau amldro
- Nicers mislif amldro
- Cwpanau mislif
- Padiau leinin ysgafn
- Padiau – Canolig/Mawr
- Tamponau heb ddodwr - Cyffredin/Mawr
- Tamponau â dodwr - Cyffredin/Mawr

Rydym wedi meithrin perthnasau da â'r cwmnïau canlynol ac mae gan bob un gymwysterau ecogyfeillgar neu olion traed carbon bach:

- TOTM
- Grace & Green
- Hey Girls
- Natracare
- Femme Tasse
- Cheeky Pants

Rydym wedi cyflogi athro i gynnal sesiynau mewn Ysgolion, gan ganolbwyntio ar Ysgolion Cynradd yn y lle cyntaf, sy'n tynnu sylw at bob dim yn ymwneud â mislif, cylchred y mislif, defnyddio cynhyrchion ac ati. Ers mis Ionawr 2023 rydym wedi cynnal sesiynau o fewn 95% o'r Ysgolion Cynradd ym Mro Morgannwg. Bydd pob disgybl sy'n mynychu'r sesiynau hyn yn cael bag o gynhyrchion am ddim i fynd â nhw gartref.

Mae tîm cyfarpar diogelu personol Bro Morgannwg wedi bod yn helpu i weinyddu'r fenter drwy greu a dosbarthu bagiau o gynhyrchion i'r holl Ysgolion sydd wedi cael sesiynau, gan gynnwys y rhan fwyaf o Ysgolion Uwchradd sydd wedi gofyn am fagiau ar gyfer grwpiau blwyddyn - gydag un ysgol yn gofyn am 1000 o fagiau! Rydym hefyd wedi rhoi cynhyrchion i Goleg yr Iwerydd.

Gall disgyblion hefyd gael cynhyrchion mislif am ddim drwy fynd i:
**https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Period-Dignity.aspx**
neu drwy e-bostio perioddignity@valeofglamorgan.gov.uk. Bydd angen iddynt roi eu henw, eu hysgol, eu gr p blwyddyn a'u cyfeiriad er mwyn sicrhau y gallwn anfon cynhyrchion i'w cartref cyn gynted â phosibl.

## Mannau Casglu/Safleoedd Urddas Mislif

Rydym hefyd yn anfon cynhyrchon i rai o'r 56 o Safleoedd Urddas Mislif, gyda nifer y safleoedd hyn yn cynyddu drwy'r amser oherwydd angen a dafod leferydd. Ar hyn o bryd mae'r safleoedd canlynol wedi'u cofrestru fel y nodir isod:

**Adeiladau'r Cyngor**
- Swyddfeydd Dinesig
- Canolfan Deulu Dechrau'n Deg
- Adeilad Dechrau'n Deg
- Canolfan Ddydd yr Hen Goleg

**Llyfrgelloedd**
- Llyfrgell y Barri
- Llyfrgell Llanilltud Fawr
- Llyfrgell y Bont-faen
- Llyfrgell Penarth
- Llyfrgell y Rhws
- Llyfrgell Sain Tathan
- Llyfrgell Gwenfô Llyfrgell Sili

**Canolfannau Hamdden**
- Canolfan Hamdden y Barri
- Canolfan Hamdden Penarth
- Canolfan Hamdden Llanilltud Fawr
- Canolfan Hamdden y Bont-faen

**Tai/Hosteli**
- Golau - Hafod
- Ty John Rowley
- Tŷ A Fro
- Tŷ Newydd
- Ty Dylan
- Ty Iolo
- Cymorth yn ôl yr Angen POBL

**Banciau Bwyd**
- Pod Bwyd Penarth
- Foodshare/CF61
- Y Pantri Bwyd – Canolfan Gymunedol Margaret Alexander
- Banc bwyd y Fro yn The Gathering Place
- Banc bwyd y Fro yn Eglwys Bedyddwyr Bethel
- Banc bwyd y Fro yng Nghapel Bethesda
- Banc bwyd y Fro yn Eglwys Hope
- Banc bwyd y Fro yn Eglwys Deuluol Coastlands
- Banc bwyd y Fro yn Eglwys Llan-fair

**Lleoliadau Eraill**
- Cornel Cadog - Parc Fictoria
- A Class Apart
- Salon Harddwch Head 2 Toe
- Cardio Core Fitness
- Canolfan Feddygol y Glannau
- Caffi Ruck
- Yr Hyb

**Canolfannau Ieuenctid/Clybiau ar ôl ysgol**
- Clwb Ieuenctid y Wig
- Clwb Ieuenctid Tregolwyn
- Bws Vpod ym maes parcio BP Sili

- Clwb Ieuenctid y Barri
- Clwb Ieuenctid y Rhws
- Clwb Ieuenctid Penarth
- Clwb Ieuenctid Llanilltud Fawr
- Clwb ar ôl ysgol Ysgol Uwchradd Whitmore
- Clwb ar ôl ysgol Llanilltud Fawr
- Clwb ar ôl ysgol Sant Cyres
- Clwb ar ôl ysgol Stanwell

**Lleoliadau Eraill**
- Cylch chwarae Bumble Bees – Little Inspirations
- Y Bocs Bwyd Mawr
- Motion Control Dance
- Hyb YMCA
- Canolfan Gymunedol Buttrills
- Canolfan Gymunedol The Bridge Between

## Unedau Cyflenwi Dewis a Dethol

Rydym hefyd yn treialu Uned Gyflenwi Mislif 'Dewis a Dethol' a fydd yn galluogi aelodau'r cyhoedd i gymryd eitemau mislif pan fydd eu hangen heb orfod gofyn amdanyn nhw'n benodol.
Ar hyn o bryd mae gennym 3 uned wedi'u lleoli yn y dderbynfa yn Swyddfeydd Dinesig y Barri, Golau Caredig (ar Broad Street) ac yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre. Mae'r adborth hyd yma o'r unedau hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn ac yn amlygu'r angen am gynhyrchion. Os bydd y rhain yn llwyddiannus, byddwn yn ceisio cyflwyno'r unedau hyn mewn lleoliadau eraill yn y dyfodol.

## Gwefannau Ategol

- Mae gan Lywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Urddas Mislif sydd ar gael yma: **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-strategol-ar-gyfer-urddas-mislif-html**
- Gwefan Mislif Fi
  **https://mislif-fi.cymru/**

## I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:


**Laura Ellis** – Gweinyddwr Atal a Phartneriaeth – LPEllis@valeofglamorgan.gov.uk

**Mark Davies** – Rheolwr Atal a Phartneriaeth – MDDavies@valeofglamorgan.gov.uk

**Lisa Lewis** – Rheolwr Gweithredol Strategaeth ac Adnoddau – Llewis@valeofglamorgan.gov.uk

**Laura Ellis**
**Prevention & Partnership Administrator/Gweinyddydd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc**
**ALN and Wellbeing / Gwella Ysgolion a Chynhwysiant**







# Dyletswyddau Cydymffurfio Llywodraethwyr Ysgol

## Cwrdd â'n Tîm

**Geoff Twigg, Rheolwr Cydymffurfio Corfforaethol Ffôn: 029 20673010**
**GLTwigg@valeofglamorgan.gov.uk**

**Andrew Treweek, Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Adeiladu ffôn: 02920 673036**
**atreweek@valeofglamorgan.gov.uk**

Gan ddefnyddio ein harbenigedd mewnol, neu sicrhau contractwyr arbenigol, gallwn dynnu’r pryder allan o'ch cyfrifoldebau cydymffurfiaeth adeiladau mewn ysgolion ac adeiladau cyhoeddus eraill.

Mae'r Tîm Cydymffurfiaeth Gorfforaethol yn cynnal ymweliadau safle cychwynnol mewn perthynas â chydymffurfiaeth adeiladau i sefydlu eich anghenion cydymffurfio, p'un ai’n statudol neu wedi eu hargymell.

Mae cynnal a chadw a rheoli adeiladu yn rhan hanfodol o'r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn ein holl ysgolion ac mae cyfrifoldeb clir ar reolwyr ac uwch aelodau staff i sicrhau bod systemau adeiladu a gosodwaith yn ddiogel i'w defnyddio. Gall methu â chwblhau'r gwiriadau a'r archwiliadau cydymffurfio perthnasol arwain at ganlyniadau difrifol a byddai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ceisio erlyn a hyd yn oed carcharu lle mae'r methiannau yn sylweddol. Er mwyn cefnogi penaethiaid a chyrff llywodraethu, mae gan y Cyngor dîm Cydymffurfiaeth Gorfforaethol ar waith i archwilio cydymffurfiaeth adeiladau mewn ysgolion. Mae cyfyngiadau ar y gweithgareddau y gall y tîm hwn eu cyflawni, ond maent ar gael i gynnig arweiniad i ysgolion er mwyn eich cefnogi i gyflawni'r cyfrifoldebau sydd gan benaethiaid a llywodraethwyr.

Er mwyn cynorthwyo i gyflawni eich cyfrifoldebau fel corff llywodraethu, argymhellir bod gennych eitem agenda reolaidd i'ch Pwyllgor Safleoedd adolygu cydymffurfiaeth adeiladau a gwirio’r canlynol:

| | **Gwasanaeth** | **Cynnyrch archwiliad** | **Arsylwadau/gweithredoedd** | **Gweithgaredd** | **Camau Llywodraethu Posibl** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gosodwaith nwy | Llwyddo / Methu | Bydd peiriannydd yn lleihau risg sylweddol trwy ynysu'r system nwy. | Bob blwyddyn | Gwirio’r gwasanaeth a'r archwiliad wedi'i gwblhau |
| Trydanol | Gosodwaith Trydanol Sefydlog | Methiant wedi'i raddio | Mae methiannau a diffygion o fewn y gosodwaith yn cael eu codio/graddio o drwsio brys/ar unwaith a gellir cau rhannau o'r system, tra bod mân ddiffygion eraill yn cael eu nodi ac nid oes angen sylw arnynt ar unwaith. | Tair/pum gwaith y flwyddyn | Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio ar gyfer ei gwblhau |

| | Gwasanaeth | Cynnyrch archwiliad | Arsylwadau/gweithredoedd | Gweithgaredd | Camau Llywodraethu Posibl |
|---|---|---|---|---|---|
| | Profion Dyfeisiau Cludadwy | Llwyddo / Methu | Dylid gwneud eitemau sydd wedi methu yn ddiwerth ar adeg yr archwiliad a dylai rheolwr y safle symud ac adnewyddu'r offer. Yn gyffredinol, nid oes stocrestr ar gael i sicrhau bod yr holl offer wedi'u profi ond dylid labelu'r holl offer sy'n weladwy yn briodol. | Bob dwy flynedd | Sicrhau bod gan offer dag/sticer archwiliad ac nad yw'n hŷn na 2 flynedd |
| | Goleuadau Argyfwng | Methiant wedi'i raddio | Mae methiannau a diffygion a nodwyd yn y gosodwaith yn cael eu graddio o drwsio brys/ar unwaith i argymell bodloni'r cod cyfredol. | Ddwyaith y flwyddyn | Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio ar gyfer ei gwblhau |
| | Goleuadau Llwyfan | Methiant wedi'i raddio | Mae methiannau a diffygion a nodwyd yn y gosodwaith yn cael eu graddio o drwsio brys/ar unwaith i argymell bodloni'r cod cyfredol | Bob blwyddyn | Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio ar gyfer ei gwblhau |
| Tân | Asesiadau risg tân. (Swyddogaeth Iechyd a Diogelwch) | COG | Bydd yr arolwg yn nodi gwelliant ffisegol i'r adeiladau a gofynion cynnal a chadw i ddangos gweithgaredd cynnal a chadw, dylid cadw cofnod wedi'i lofnodi o weithgaredd dyddiol, wythnosol, misol ac ati. | Tair/pum gwaith y flwyddyn | Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio ar gyfer ei gwblhau. He fyd sicrhau bod drysau |

| | Gwasanaeth | Cynnyrch archwiliad | Arsylwadau/gweithredoedd | Gweithgaredd | Camau Llywodraethu Posibl |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | tân yn cael eu cadw ar gau a'u bod yn cau'n iawn. |
| | System canfod tân | Methiant wedi'i raddio | Bydd angen mynd i'r afael ag amrywiaeth o gamau adeiladu a rheoli a byddant yn cynnwys gwasanaethu'r gosodwaith yn gylchol, cynnal a chadw rheolaidd a gwiriadau wythnosol wedi eu cofnodi yn ogystal ag adfer y gosodwaith. | Blynyddol/ Wythnosol | Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio ar gyfer ei gwblhau |
| | Offer Diffodd Tân | Llwyddo/Methu | Dylai offer sydd wedi methu gael ei symud o'r safle gan y peiriannydd archwilio a dylid trafod eitemau newydd gyda rheolwr y safle. | Bob blwyddyn | Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio ar gyfer ei gwblhau |
| | Systemau chwistrellu | Llwyddo/Methu | Bydd pennau chwistrellu yn cael eu cofnodi fel methiant a bydd y cofnod archwilio yn rhoi methiant. Bydd methiant yn cael ei gofnodi fel tystysgrif sy'n weddill. | Bob blwyddyn | Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio ar gyfer ei gwblhau |
| | Peipiau Sych | Llwyddo/Methu | Bydd peipiau sych yn cael eu cofnodi fel methiant a bydd y cofnod archwilio yn rhoi methiant. Bydd methiant yn cael ei gofnodi fel tystysgrif sy'n weddill. Mae namau mewn peipiau gwlyb yn fwy tebygol o | Bob blwyddyn | Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio ar |

| | Gwasanaeth | Cynnyrch archwiliad | Arsylwadau/gweithredoedd | Gweithgaredd | Camau Llywodraethu Posibl |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ollwng i mewn i'r adeilad a bydd rheolwyr y safle o bosibl wedi sylwi a gweithredu (dau adeilad yn unig) | | gyfer ei gwblhau |
| Micro Biolegol | Asbestos | Asesiad yn Seiliedig ar COG | Mae cynhyrchion asbestos a nodir trwy archwiliad anymwthiol yn cael eu cofnodi a'u monitro yn ystod archwiliad blynyddol. Dylai unrhyw waith a wneir ddiweddaru'r cynllun rheoli | Bob blwyddyn | Sicrhau bod arolwg Adnewyddu a Dymchwel yn cael ei gwblhau cyn cyfarwyddo unrhyw addasiadau i'r ysgol (Ddim yn berthnasol mewn ysgolion mwy newydd) |
| | Legionella | Argymhelliad yn Seiliedig ar COG | Bydd angen mynd i'r afael ag amrywiaeth o gamau adeiladu a rheoli a byddant yn cynnwys gwasanaethu'r gosodwaith yn gylchol, cynnal a chadw rheolaidd a gwiriadau wythnosol wedi eu cofnodi yn ogystal ag adfer y gosodwaith. | Blynyddol/ Wythnosol | Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio ar gyfer ei gwblhau. Hefyd, sicrhau bod profion rheolaidd ar dymheredd tapiau a rhedeg arllwysfeydd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml yn cael eu cofnodi'n wythnosol (hyd yn oed |

| | Gwasanaeth | Cynnyrch archwiliad | Arsylwadau/gweithredoedd | Gweithgaredd | Camau Llywodraethu Posibl |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | yn ystod gwyliau'r ysgol) |
| Arall | Lifftiau | Methiant wedi'i raddio | Bydd asesydd yswiriant yn darparu argymhellion ac amserlen ar gyfer gwaith adfer yn erbyn pob un. Gallai argymhellion amrywio o ynysu lifft ar unwaith i gynnal a chadw tymor hwy. | Chwarterol | Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio ar gyfer ei gwblhau |
| | Dargludyddion Mellt | Llwyddo/Methu | Tystysgrif wedi ei chyhoeddi gydag argymhellion ar gyfer daearu effeithiol pan fydd mellten yn taro. | | Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio ar gyfer ei gwblhau |

**Lisa Lewis**
**Operational Manager, Strategy and Resources/Rheolwr Gweithredol, Strategaeth ac Adnoddau**
**Strategy, Community Learning and Resources/ Strategaeth, Adnoddau Dysgu Cymunedol**

# Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2022-24

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

| Rhif | Teitl | Blaenly thyren | Cyfenw | Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Mr | P | Cate | Ysgol Gynradd Parc Jenner |
| 2 | Mr | N | Craggs | Ysgol Gynradd yr Edlwys yng Nghymru Gwenfo D/W |
| 3 | Ms | J | Evans | Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Gladstone |
| 4 | Mrs | M | Gibbs | Ysgol Gynradd Romilly |
| 5 | Mr | G | Griffiths | Ysgol Gwaun y Nant ac Ysgol Sant Curig |
| 6 | Cllr Mr | A | Hennessey | Ysgol Gynradd y Rhws |
| 7 | Mrs | C | Hunt | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Nicholas D/W |
| 8 | Mrs | S | Jenkins | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Andrews ac Ysgol Gyfun Sant Cyres Cynhwysfawr |
| 9 | Dr | C | Lee | Ysgol Gyfun Sant Cyres Cynhwysfawr |
| 10 | Cllr Mrs | J | Lynch-Wilson | Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr |
| 11 | Dr | M | Price | Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn |
| 12 | Mr | D | Treharne | Ysgol Gynradd Llansanwyr D/W |
| 13 | Mrs | T | Vaughan-Taylor | Ysgol Gyfun y Bont-Faen |
| 14 | Mr | O | Williams | Ysgol Sant Baruc |
| 15 | Cllr Mr | M | Wilson | Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria |
| | | | | |
| **Tymhorau swydd Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr (PGRs)** | | | | |
| Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Cynradd - Lucy Barrowclough - Ysgol Gynradd Llandochaul | | | | |
| Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Uwchradd - Ghislaine van de Burgt - Whitmore High School | | | | |

